



Duw, fi a byw bob dydd

Chwe Gwasanaeth ar gyfer Ysgolion Cynradd

Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Nia W Williams

Medi 2011



Duw, fi a byw bob dydd

Cyflwyniad

Paratowyd y gyfres hon o wasanaethau ar gyfer addoliad ar y cyd mewn ysgolion cynradd gyda phlant o 4 i 11 oed. Fe'i defnyddiwyd mewn ysgolion amrywiol gan addasu rhywfaint ar y cynnwys: gydag ysgol gyfan (4 i 11), adran iau (7 i 11), a blynyddoedd meithrin i flwyddyn 3 (3 i 7).

Nod

Mae pob gwasanaeth wedi ei seilio ar y Beibl, a datblygir thema'r gwasanaeth mewn ffordd fydd yn addas i'r plant, gan eu hannog i feddwl am yr hyn a gyflwynir.

Cynnwys

Ceir nod clir ar gyfer pob gwasanaeth, rhestr o'r adnoddau fydd eu hangen, cyflwyniad i'r thema, stori neu ran o'r Beibl, neges neu gymhwysiad, gweddi a chân.

Mae'r themâu fel a ganlyn:

1. **Be 'di Pasg?**

Thema: Hanes y Pasg

Stori: Hanes 'yr Wythnos Fawr'

2. **Glanhau'r llechen yn lân**

Thema: Iesu'n cynnig ail gyfle

Stori: Iesu'n adfer Pedr

3. **Fi gynta!**

Thema: Rhoi pobl eraill yn gyntaf

Stori: Dameg y wledd briodas

4. **Joseff y caethwas**

Thema: Caethwasiaeth heddiw

Stori: Brodyr Joseff yn ei werthu

5. **Ti'n bwysig**

Thema: Pawb yn unigryw ac yn werthfawr i Dduw

Stori: Iesu'n gosod plentyn ynghanol y disgyblion

6. **Bwyta a siopa**

Thema: Gofalon bywyd

Stori: O'r bregeth ar y mynydd

Paratoi

Mae gofyn darllen trwy'r deunydd yn ofalus, gan feddwl am y plant y byddwch yn eu harwain mewn addoliad ar y cyd, am drefn yr ysgol, sut fath o ystafell y byddwch ynddi a pha adnoddau fydd ar gael yno e.e. cyfrifiadur, taflunydd a sgrîn.

Llyfrau

Fe ddefnyddir y canlynol ar gyfer y gwasanaethau:

- 'Y Beibl Bach i Blant' (Cyhoeddiadau'r Gair)
- Gwefan www.beibl.net

Llyfrau caneuon:

- 'Tyrd i Ddathlu' (Coleg y Bala, Curiad)
- 'Y Cyntaf a'r Olaf' (Eglwys Presbyteraidd Cymru, Curiad)
- 'Ffrindiau Iesu' (Saint y Gymuned)

Cyngor a chefnogaeth

Os hoffech gael cyngor ynglŷn ag arwain addoliad ar y cyd mewn ysgol, neu wybodaeth bellach am adnoddau defnyddiol ar gyfer arwain gwasanaeth, cysylltwch â Choleg y Bala, Canolfan Plant ac Ieuenctid Eglwys Presbyteraidd Cymru: 01678 520565 neu colegybala@ebcpcw.org.uk

1. Be 'di Pasg?

Nod

Cyflwyno prif ddigwyddiadau hanes y Pasg, a rheswm y Cristion dros ddathlu'r Pasg.

Bydd angen

- Mul (tegan)
- Bag o 30 darn o arian
- Croes
- Carreg gron
- CD Powerpoint o luniau "Beibl Bach i Blant" (Cyhoeddiadau'r Gair)
- Gliniadur a thafflunydd (os byddwch yn defnyddio'r lluniau)
- Cân: 'A yw Duw yn farw?' (Llyfr "Tyrd i Ddathlu", Rhif 1)

Cyflwyniad

- Ydych chi'n hoffi cael wŷ Pasg?
- Pa mor gynnar ydych chi wedi sylwi ar y siopau mawr yn dechrau gwerthu wyau Pasg? Mewn ambell siop, yn syth ar ôl y Nadolig, mae'r wyau Pasg allan ar y silffoedd.
- Pryd fyddwch chi'n cael wŷ Pasg fel arfer?
- Tybed fydd eich rhieni yn dweud wrthyddych chi am ei gadw tan Sul y Pasg? Dyma pryd y dylen ni fwyta wŷ Pasg. Os ydyn ni'n ei fwyta cyn hyn, mae fel tase ni'n agor anrhegion Nadolig yn fuan, cyn Dydd Nadolig.
- Dewch i ni feddwl mwy pam ein bod ni'n dathlu'r Pasg.

Stori

Yn defnyddio'r props. Gofyn i un o'r plant ddod allan i ddal y bag props. Plant eraill i ddod i estyn props allan fesul un.

Mul

Tybed beth sydd gan ful neu asyn i'w wneud â'r hanes?

Mae'r hanes yn cychwyn wrth i Iesu ddod i mewn i Jerwsalem ar gefn asyn a phobl yn ei groesawu fel brenin, yn taflu dail palmwydd a'u cotiau o flaen yr asyn. Mae pawb yn hapus.

Bag o arian – 30 darn

Ydych chi'n meddwl fod rhaid i Iesu dalu am gael mynd ar gefn yr asyn?

Nac oedd! Cafodd Iesu fenthyg yr asyn.

Roedd rai bobl yn wahanol iawn i'r bobl oedd yn rhoi croeso i Iesu fel brenin. Doedd y bobl yma ddim yn hoffi Iesu o gwbl. Roedden nhw'n elynion iddo ac roedden nhw eisiau cael gwared ohono.

Mae'n anodd iawn deall hyn gan fod Iesu'n ddyn mor dda, ac yn helpu pawb.

Roedd gelynion Iesu wedi talu i un o ffrindiau gorau Iesu (disgybl) i'w fradychu, er mwyn iddyn nhw fedru ei ddal. Roedd Jwdas Iscariot wedi cael 30 darn o arian am arwain milwyr i ddal Iesu.

Meddyliwch! Ffrind gorau yn gwneud y fath beth!

Croes

Mae hon yn rhan fawr o'r hanes, ac yn rhan drist iawn. Wyddoch chi pam?

Yn y diwedd fe gafodd gelynion Iesu eu ffordd, ac fe gafodd Iesu ei roi ar groes i farw. Roedd hi'n edrych fel petai'r gelynion wedi ennill.

Roedd ffrindiau Iesu yn drist iawn fod peth mor ofnadwy wedi digwydd i Iesu.

Mae Cristnogion yn credu bod Iesu wedi marw ar y groes er mwyn i ni gael maddeuant gan Dduw am y pethau drwg fyddwn ni'n eu gwneud, eu dweud neu eu meddwl. Mae'r pethau yma yn brifo Duw yn fawr, am ei fod yn ein caru ni gymaint.

Mae Cristnogion yn credu bod Iesu wedi marw ar y groes i gymeryd y gosb am y pethau drwg yma fel nad oes raid i ni gael ein cosbi ac er mwyn i bawb sy'n credu ynddo gael bod yn ffrindiau hefo Duw am byth.

Gwnaeth Iesu hyn am ei fod yn ein caru ni gymaint.

Carreg

Tybed beth sy gan garreg i'w wneud â'r hanes?

Mae'r garreg yn ein hatgoffa fel y rhoddwyd Iesu mewn bedd a rhowlio carreg fawr dros agoriad y bedd i'w gau.

Ond, mewn tri diwrnod, pan aeth rhai o ffrindiau Iesu at y bedd fe gawson nhw andros o sioc. Doedd Iesu ddim yn y bedd!

Roedden nhw'n methu deall beth oedd wedi

digwydd!

Yna, fe welodd y disgyblion Iesu yn fyw! Fe gawson nhw bryd o fwyd hefo fo!

Ie, roedd Iesu wedi dod yn ôl yn fyw!

Ydach chi'n meddwl bod ffrindiau Iesu yn falch o'i weld?

Ar y dechrau roedden nhw wedi dychryn, ond wedyn roedden nhw'n llawen iawn, iawn.

A dyna pam mae Cristnogion yn dathlu'r Pasg – am fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw ar y Dydd Sul Pasg cyntaf erioed, bron i ddwy fil o flynyddoedd yn ôl!

Gellir gosod y props mewn lle amlwg hyd ddiwedd yr addoliad.

Cân

“A yw Duw yn farw?” (Llyfr “Tyrd i Ddathlu”, Rhif 1)

Gweddi

Diolch am hanes y Pasg. Diolch fod Iesu wedi bod yn fodlon marw er mwyn i bawb sy'n credu ynddo gael maddeuant, a bod yn ffrindiau hefo Duw. Diolch fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.

Crynhoi

A beth am yr ŵy Pasg?

- Un peth pwysig am ŵy Pasg ydi ei fod yn wag. Yn yr hanes, beth arall oedd yn wag? Y bedd. Mae'n ein hatgoffa fod bedd Iesu yn wag.
- Beth sy'n dod allan o ŵy go iawn? Cyw bach! Mae'r ŵy Pasg hefyd yn ein hatgoffa fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.
- Felly, os byddwch yn llwyddo i aros tan Ddydd Sul y Pasg cyn bwyta eich ŵy Pasg, bydd y ddau beth yma yn eich atgoffa pam mae Cristnogion yn dathlu'r Pasg - am fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw!

2. Glanhau'r llechen yn lân - Ail gyfle Pedr

Nod

Cyflwyno hanes Pedr a'r disgyblion yn mynd i bysgota ar ôl y Pasg (Ioan 21) a Iesu'n adfer Pedr. Trwy hyn esbonio bod Cristnogion, er eu bod yn caru Iesu ac yn ei ddilyn, yn ei siomi weithiau, ond bod Iesu'n rhoi cyfle arall dro ar ôl tro.

Bydd angen

- Llechen, sialc a chadach
- Cân: "Pedr ac Iago ac Ioan yn pysgota" (Llyfr "Tyrd i Ddathlu", Rhif 28)

Cyflwyniad

- Ydych chi wedi siomi eich ffrind gorau rhyw dro? Efallai eich bod wedi addo cadw cyfrinach, ond wedi methu. Efallai eich bod wedi addo chwarae hefo nhw, ond wedi anghofio. Efallai eich bod wedi ffraeo am ryw beth gwirion.
- Roedd Simon Pedr yn un o ffrindiau Iesu, yn un o'i ddisgyblion, ond fe wnaeth o adael Iesu i lawr. Ydach chi'n cofio sut? Pan oedd Iesu wedi ei ddal, dyma bobl yn dweud wrth Pedr eu bod wedi'i weld gyda Iesu, ac fe ddwedodd Pedr dair gwaith nad oedd hyd yn oed yn adnabod Iesu, heb sôn am fod yn ffrind iddo.

Stori

Defnyddiwch y llechen a'r sialc i dynnu lluniau syml, gan holi'r plant beth maen nhw'n ei weld i wneud yn siŵr eu bod yn deall!

Mae'n stori ni heddiw yn digwydd ychydig ar ôl y Pasg, pan oedd Iesu wedi dod yn ôl yn fyw - atgyfodi. Roedd y disgyblion wedi ei weld yn fyw, ond doedd Iesu ddim gyda nhw bob dydd fel yr oedd o'r blaen, ac roedden nhw'n teimlo ychydig ar goll.

Ar ôl y Pasg aeth y disgyblion yn ôl i Galilea.

"Dwi'n mynd i bysgota," meddai Pedr wrth y lleill.

Aeth Thomas, Nathanael, Iago a Ioan a dau ddisgybl arall gydag o.

"Ddown ni hefyd," medden nhw.

Rhif "7"

(Pysgotwr oedd Pedr pan alwodd Iesu arno i'w ddilyn a bod yn ddisgybl. Roedd Iesu am i Pedr fod yn "bysgotwr dynion" – helpu pobl i ddod i adnabod Duw yn well, a'i ddilyn.)

Cwch pysgota a rhwyd

Bu'r disgyblion yn pysgota drwy'r nos ond heb ddal dim.

Lleuad a physgodyn a chroes drwyddo

Fel roedd hi'n gwawrio, safodd Iesu ar y lan, ond doedd y disgyblion ddim yn ei nabod.

"Oes gennych chi bysgod?" galwodd Iesu.

"Dim o gwbl," atebodd y disgyblion.

"Tafwch eich rhwydi ar yr ochr dde i'r cwch, ac fe gewch chi bysgod."

Saeth i lawr i'r dde.

Tafloodd y disgyblion eu rhwyd i'r môr a dal cymaint o bysgod nes eu bod yn methu codi'r rhwyd i'r cwch.

"Iesu ydy o!" meddai Ioan wrth Simon Pedr.

Roedd Iesu wedi cynnau tân yn barod.

"Dewch â rhai o'r physgod," meddai, "ac fe gawn ni frecwast."

Fflamau tân

Felly dyma Simon Pedr yn mynd i mewn i'r cwch a llusgo'r rhwyd i'r lan. Roedd hi'n llawn o bysgod mawrion, 153 ohonyn nhw, ond er hynny wnaeth y rhwyd ddim rhwygo.

Rhif 153

Ar ôl bwyta, roedd gan Iesu gwestiwn i Pedr.

"Wyt ti'n fy ngharu i?" gofynnodd.

"Ydw," meddai Pedr. "Ti'n gwybod mod i'n dy garu di."

Gofynnodd Iesu yr un cwestiwn i Pedr dair gwaith, a'r tri tro atebodd Pedr yr un fath, "Ti'n gwybod mod i."

"Gofala am fy nilynwyr i, Pedr. Edrycha ar eu holau yn ofalus fel mae bugail yn edrych ar ôl ei ddefaid."

Rhif 3

"Glanhau'r llechen yn lân"

- Mae pobl sy'n caru Iesu, ac yn ei ddilyn, Cristnogion, yn gwneud camgymeriadau weithiau, fel yr oedd Pedr wedi gwneud camgymeriad trwy ddweud nad oedd o'n adnabod Iesu.

- Er bod Pedr wedi gwadu Iesu dair gwaith, a dweud nad oedd hyd yn oed yn ei adnabod, fe roddodd Iesu gyfle arall i Pedr.
- Gofynnodd iddo dair gwaith a oedd yn ei garu, ac fe ddwedodd Pedr dair gwaith fod Iesu'n gwybod ei fod yn ei garu.
- Wedyn fe roddodd Iesu waith pwysig i Pedr – edrych ar ôl pobl eraill oedd wedi dod yn ddilynwyr Iesu a'u helpu.
- Roedd fel petai Iesu wedi cael gwared o gamgymeriad Pedr, neu wedi glanhau y llechen yn lân:

SGWENNU “3” AR Y LECHEN, YNA EI CHWALU

- Roedd Iesu'n dangos i Pedr ei fod wedi maddau iddo, a'i fod yn ymddiried ynddo i wneud gwaith pwysig.
- Felly'n union mae Iesu hefo pobl sy'n ei ddilyn ac yn ei garu heddiw – mae'n maddau iddyn nhw pan fyddan nhw'n gwneud camgymeriadau, ac yn rhoi cyfle arall iddyn nhw.

Cân

“Pedr ac Iago ac Ioan yn pysgota”
(Llyfr “Tyrd i Ddathlu”, Rhif 28)

Gweddi

O, Dduw, diolch i ti am yr hanes yma o'r Beibl.
Diolch i Ti fod Iesu wedi rhoi cyfle arall i Pedr.
Diolch i Ti dy fod yn rhoi cyfle arall i ddilynwyr Iesu heddiw pan fyddan nhw'n gwneud camgymeriad.
Plis helpa ni i faddau pan fydd teulu neu ffrindiau yn ein siomi.
Amen.

3. Fi gynta!

Nod

Cyflwyno hanes ddwedodd Iesu i ddysgu gostyngeiddrwydd; pwysigrwydd rhoi pobl eraill yn gyntaf.

Bydd angen

- Gwahoddiad priodas
- Jar
- Pêl golff a sticer wyneb hapus
- Reis
- Cân: “Crea ynof galon lân”
(Tyrd i Ddathlu, Rhif 5)

Cyflwyniad

- Pan fydd hi'n amser nôl cinio, ble'r ydan ni eisiau bod? Ym mlaen y rhes neu yn y cefn?
- Pan fydd rhywun yn rhannu fferins, pwy sydd eisiau'r dewis cyntaf?

Stori

Un tro roedd Iesu wedi cael gwahoddiad i dŷ Pharisead pwysig, un o arweinwyr crefyddol yr Iddewon, i gael pryd o fwyd.

Pan edrychodd Iesu o gwmpas y bwrdd, sylwodd fod y bobl oedd wedi cael gwahoddiad i gyd yn trio eistedd yn y llefydd gorau. Fe welwch chi mewn parti pen blwydd weithiau, fod ambell un wedi gweld lle mae'r plât creision neu'r bisgedi siocled, ac wedi mynd i eistedd cyn agosed â phosib' at y platiau hynny!

A dyna fel yr oedd hi yn nhŷ y Pharisead. Felly, dyma Iesu'n dweud rhyw fath o stori fach. Fe soniodd am gael gwahoddiad i briodas.

Gawsoch chi wahoddiad i briodas?

(Dangos y gwahoddiad priodas)

Mae'n beth reit gynhyrfus, am nad ydan ni'n cael gwahoddiad bob dydd. Dychmygwch gael gwahoddiad. Rydach chi'n gwisgo'ch dillad gorau ar gyfer y diwrnod ac yn prynu anrheg neis iawn i'r ddau sy'n priodi ac i ffrwrdd â chi.

(Annog y plant i esgus gwneud eu hunain i edrych yn grand)

Ar ôl y briodas, fel arfer, mae yna barti mawr, neu wledd briodas. Weithiau maen nhw mewn llefydd crand fel gwesty mawr. Yn aml mae'r ddau sy'n priodi wedi mynd i drafferth fawr i benderfynu lle mae pawb yn eistedd, ac mae yna gynllun o'r byrddau, ac enw pawb yn ei le yn dwt.

(Annog y plant i esgus chwilio am eu henw)

Dychmygwch pe bai rhywun yn cyrraedd i'r wledd, yn edrych ar ei enw ar y rhestr ac yn penderfynu nad ydi o eisiau eistedd yn y man lle mae wedi ei osod! Dychmygwch beth fyddai'n digwydd pe bai'r person yma yn penderfynu ei fod am fynd i eistedd hefo'r teulu agos ar y bwrdd uchaf (“top table”)!

(Annog y plant i esgus symud eu henw ac eistedd yn slei mewn sedd arall)

Mi fuasai'n andros o gywilydd pe bai'n eistedd yn sêd Anti Henrietta sydd wedi dod yr holl ffordd o Chicago yn America i fod yn y briodas! Dychmygwch sut fuasai'n teimlo pe bai tad y ferch sy'n priodi yn dod ato ac yn gofyn iddo symud, ac yn mynd ag o i'w sedd ... wrth y bwrdd pellaf, yr un wrth ymyl y drws!!

(Annog y plant i actio fel pe byddai ganddyn nhw gywilydd mawr)

Mi fuasai'n llawer gwell pe bai'r person yma wedi mynd i eistedd yn y sêd bellaf yn y dechrau, a bod tad y briodasferch wedi dod i'w symud i gael eistedd mewn sedd wag yn agos iawn at y bwrdd uchaf!

Ydych chi'n deall beth oedd Iesu'n ei ddweud?

Ie, mae'n bwysig i ni beidio â gwthio ein hunain i fod yn gyntaf, ond ein bod ni yn rhoi pobl eraill yn gyntaf.

Cymhwyso

Eglurwch wrth y plant eich bod am geisio gwneud arbrawf.

Estynnwch y bêl golff a wyneb hapus arni, reis a'r jar yn barod.

- Gosodwch y bêl golff â'r llun wyneb hapus arni yng ngwaelod y jar.
- Tywalltwch y reis dros y bêl nes ei bod o'r golwg.
- Trowch y jar yn ofalus o un ochr i'r llall nes bod y bêl yn dod i ben y reis.

- Canlyniad: dylai'r bêl ddod i ben y reis bob tro y byddwch yn rhoi cynnig arni.

Fel hyn mae Iesu'n dweud y gall hi fod os byddwn ni'n rhoi pobl eraill yn gyntaf. Fel mae'r bêl yn dod i ben y reis, byddwn ninnau yn cael ein anrhydeddu.

Mae'n llawer gwell i rywun arall ein symud i flaen y ciw cinio am ein bod yn rhoi lle i eraill, na'n bod yn gwthio i'r blaen, ac yna'n cael ein symud reit i gefn y rhes!

Gweddi

O, Dduw, diolch i ti am y stori ddwedodd Iesu.

Wnei di faddau i ni, os gweli'n dda, am ein bod weithiau'n meddwl ein bod ni yn bwysicach na phawb arall.

Plis wnei di ein helpu i gofio rhoi pobl eraill yn gyntaf, a dangos parch tuag atyn nhw.

Amen.

Cân

“Crea ynof galon lân” (Tyrd i Ddathlu, Rhif 5)

4. Joseff y caethwas

Nod

Egluro beth ydi caethwasiaeth; cyflwyno stori Joseff yn cael ei werthu i fod yn gaethwas; esbonio bod caethwasiaeth yn dal i fodoli heddiw, ond fod yna ffordd i ni helpu i'w stopio.

Bydd angen

- Ffa coco
- Siocled
- Llun ffa coco ar goeden (oddi ar y we)
- Llun arwydd Stop the Traffik (www.stophetraffik.org)
- Llun arwydd Fair Trade (www.fairtrade.org.uk)
- Cân: “Bendigedig enw yr Iôr” (Tyrd i Ddathlu, Rhif 2)

Cyflwyniad

- Oes yna rywun yma sy'n hoffi siocled?
- Beth yw eich hoff siocled?
- Tybed fyddwch chi'n gallu meddwl beth ydi'r cysylltiad rhwng siocled a'r stori heddiw.

Stori

Beibl Bach i Blant “Y Brodyr Cas” t.74 – 81

Efallai fod rhai ohonoch wedi gwylio'r rhaglen yna 'chydig yn ôl lle'r oedd yna ddynion ifanc yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i gael y cyfle i ganu rhan Joseff yn y sioe gerdd “Joseph and the Amazing Technicolor Dreamcoat”. Gwrandewch ar y rhan yma o hanes Joseff.

Neges

- Ydych chi'n cofio'r cwestiwn ofynnais i? Beth ydi'r cysylltiad rhwng stori Joseff a siocled?
- Gwrandewch ar yr hanes yma i weld a fedrwn chi wneud y cysylltiad:

Un diwrnod gadawodd Diabate a Traoré eu pentref wrth Sirkasso, Mali, yng Ngorllewin Affrica i fynd i'r Traeth Ifori (Ivory Coast), i geisio ennill digon o bres i brynu beic. Ond yn lle cael arian am weithio, fe gawson nhw eu gwerthu i ddyn am tua £25 yr un

– ac roedd y dyn yma eisiau ei bres yn ôl. Y ffordd iddo ei gael yn ôl oedd i'r bechgyn weithio iddo ... am ddim.

Cymerwyd Diabate a Traoré i fferm lle'r oedd yna tua 20 o fechgyn eraill yn yr un helbul. Doedd yr un ohonyn nhw wedi cael eu talu am weithio'n galed ar y fferm. Cysgai'r bechgyn mewn cwt mwd siâp petryal. Roedd ffenestri ynddo rhywdro, ond roedd y ffenestri wedi eu cau am fod rhai o'r bechgyn wedi ceisio dianc trwyddyn nhw'n ystod y nos.

Yr unig beth oedd y bechgyn yn ei gael i'w fwyta oedd bananas, ond roedden nhw yn bwyta rhai o'r ffa coco os byddai cyfle. Aeth misoedd heibio fel hyn a Diabate a Traoré yn gweithio yn y blanhigfa coco; roedd y bechgyn wedi anghofio popeth am ddod ar antur i chwilio am arian i brynu beic. Doedd bywyd yn ddim heblaw trio cadw'n fyw, ac roedden nhw'n digalonni'n llwyr.

Wnaethon nhw roi'r gorau i feddwl am geisio dianc. Roedd y bygythiad o gael eu curo'n greulon am geisio dianc yn ddigon i'w cadw lle'r oedden nhw.

Munud i feddwl

- Beth sy'n debyg rhwng stori Joseff a hanes Diabate a Traoré?
 - Beth sy'n annheg am y ddwy stori?
 - Ydi o'n iawn i orfodi rhywun arall i weithio i ni am ddim? Dyma ydi caethwasiaeth.
- Dangoswch arwydd “Stop the Traffik”
- Eglurwch fod gwefan gan y mudiad sy'n ceisio atal gwerthu pobl fel caethweision.
- (Gallai Bl 5 + 6 ymweld â'r wefan dan arweiniad athro/athrawes)
- Pam ydach chi'n meddwl fod llun allwedd ar y llaw?
 - Mae stori caethwasiaeth yn dal i fodoli heddiw, fel mae hanes Diabate a Traoré yn dangos i ni.
 - Oes rhywbeth fedrwn ni ei wneud i helpu?

Un o'r pethau fedrwn ni ei wneud ydi edrych yn ofalus ar y pecynnau siocled fyddwn ni yn eu prynu. Mae llawer iawn o'r ffa coco sy'n cael eu defnyddio i wneud siocled ym Mhrydain yn dod o lefydd fel y man lle roedd Diabate a Traoré yn gweithio.

Os ydi'r pecyn yn dweud “Fair Trade”, yna rydyn ni'n gwybod fod y siocled wedi ei wneud â ffa coco wedi eu cynhyrchu mewn ffordd sy'n deg i'r gweithwyr.

Mae o i fyny i ni ddewis pa siocled rydyn ni am ei brynu. Mi fedrwn ni ofyn i gwmnïau mawr sy'n cynhyrchu siocled i ddewis eu ffa coco yn ofalus – i wneud yn siŵr nad ydyn nhw wedi eu tyfu gan gaethweision.

Dangoswch arwydd “Fair Trade”

Dyma'r arwydd sy'n dangos bod rhywbeth wedi ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n deg i'r gweithiwr.

Gweddi

Mae Cristnogion yn credu ein bod yn gallu gofyn i Dduw wneud y sefyllfa'n well, a gofyn i Dduw ein helpu ninnau i wneud ein rhan i newid pethau:

O Dduw, diolch am ein hatgoffa heddiw fod yna bobl yn y byd yn dal i gael bywyd caled, anodd fel caethweision.

Os gweli'n dda, wnei di ein helpu i fod yn ofalus wrth ddewis ein siocled, gan feddwl am y bobl sydd wedi gweithio'n galed er mwyn i ni gael ei fwynhau.

Helpa ni, plis, i feddwl sut y gallwn ni helpu pobl sy'n gweithio'n galed am ychydig iawn o arian.

Amen

Cân

“Bendigedig enw yr Iôr” (Tyrd i Ddathlu, Rhif 2)

Datblygu'r thema

Mae gan y “Fairtrade Foundation” gynllun yn hybu ysgolion i fod yn Ysgolion Masnach Deg. Os hoffech fwy o fanylion, ewch i'r wefan:

www.fairtrade.org.uk

Mae ymgyrch Stop the Traffik wedi ei hanelu yn bennaf at oedrannau Blwyddyn 6 a hŷn, ond mae syniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth plant yn y diwydiant siocled e.e. parti ffondu siocled.

5. Ti'n bwysig

Nod

Cyflwyno'r syniad fod pawb yn unigryw ac yn werthfawr yng ngolwg Duw.

Bydd angen

- Cwpanau adeiladu'n dŵr – rhai plant ifanc sy'n ffitio yn eu gilydd gyda phatrwm gwahanol ar ben pob un.
- Cân: "Ffrind i mi"
(Llyfr 'Y Cyntaf a'r Olaf', Rhif 1)

Cyflwyniad

- Gofynnwch i'r plant pwy maen nhw'n feddwl ydi'r person pwysicaf
 - yn yr ysgol?
 - yng Nghymru?
 - ym myd pêl-droed?
 - ym myd canu pop?
- Gofynnwch a ydyn nhw'n dadlau weithiau pwy sy'n cael dewis pa raglen i'w gwyllo ar y teledu adre, neu pa gêm i'w chwarae ar fuarth yr ysgol?
- Yn ein stori bore ma, yn rhyfedd iawn, mae ffrindiau agos Iesu, y disgyblion, yn dadlau!

O'r Beibl

Pwy ydy'r pwysicaf

Marc pennod 9 adnodau 33–37 (o beibl.net)

"33 Dyma nhw'n cyrraedd Capernaum. Pan oedd yn y tŷ lle roedden nhw'n aros gofynnodd Iesu i'r disgyblion, "Am beth oeddech chi'n dadlau ar y ffordd?" 34 Ond wnaeth neb ateb. Roedden nhw wedi bod yn dadlau pwy oedd y pwysica."

Efallai fod o wedi mynd rhywbeth tebyg i:

"Fi ydi ffrind gorau Iesu."

"Nage, fi ydi ffrind gorau Iesu."

"Ia, ond fi ydi ffrind gorau, gorau Iesu!"

Roedd gan y disgyblion ormod o gywilydd i ateb Iesu pan ofynnodd iddyn nhw am beth roedden nhw'n dadlau – ond roedd Iesu'n gwybod yn iawn am beth

roedden nhw wedi bod yn siarad.

"35 Eisteddodd Iesu i lawr, a galw'r deuddeg disgybl ato, ac meddai wrthyn nhw, "Rhaid i'r sawl sydd am fod yn geffyl blaen ddysgu mynd i'r cefn a gwasanaethu pawb arall. 36 Gosododd blentyn bach yn y canol o'u blaenau."

Gofynnwch i un o'r plant lleiaf ddod i'r blaen.

"Yna cododd y plentyn yn ei freichiau, a dweud wrthyn nhw, 37 "Mae pwy bynnag sy'n rhoi croeso i blentyn bach fel yma am eu bod yn perthyn i mi, yn rhoi croeso i mi; ac mae pwy bynnag sy'n rhoi croeso i mi, yn croesawu'r Un sydd wedi fy anfon i."

Beth mae Iesu'n ddweud?

- Mae Iesu'n dweud ei fod yn meddwl fod plant yn bwysig iawn, iawn.
- Mae'n dweud fod plant yn arbennig iawn iddo, ac felly, hefyd, i Dduw.

Cwpanau adeiladu

- Rhannwch y cwpanau chwarae, un bob un i nifer o blant, a gofynnwch iddynt sefyll yn y blaen i ddangos y cwpanau.
- Gofynnwch beth sydd yn wahanol am y cwpanau?
 - lliw
 - maint
 - patrwm ar y pen
- Gofynnwch beth sydd yr un fath amdanyn nhw?
 - yr un siâp
 - yn ffitio yn ei gilydd
- Gofynnwch i'r plant edrych yn ofalus ar ei gilydd, a sylwi a ydyn nhw i gyd yr un fath?
- Gofynnwch a oes yna rai pethau tebyg amdanyn nhw?
- Eglurwch fod un peth *arbennig iawn* am bob un ohonyn nhw: fod Duw yn eu caru, a'u bod yn bwysig iawn, iawn iddo. Mae pawb yn wahanol, ond yn werthfawr iawn, iawn.

Cân

“Ffrind i mi” (‘Y Cyntaf a’r Olaf’, Rhif 1)

Anogwch y plant i ganu’r gân hon fel gweddi.

Gweddi

O Dduw, diolch i Ti am fy ngwneud i yn fi. Diolch fy mod yn gallu gwneud bob math o bethau. Diolch i Ti fy mod i’n gallu gwneud rhai pethau’n dda.

Diolch i Ti am fy ngharu i fel yr ydw i.

Amen.

6. Bwyta a Siopa

Nod

Cyflwyno yr hyn roedd Iesu'n ei ddysgu am ofalon, dillad a bwyd, yng ngoleuni rhoi Duw yn gyntaf.

Bydd angen

- Dillad gwisgo i fyny, beltiau, sgarffiau
- Logo Yves St Laurent (oddi ar y we)
- Llun Cnocell Werdd (oddi ar y we)
- Llun iris gwyllt (oddi ar y we)
- Cân: “Iesu dan ni’n canu dy glod” (o lyfr ‘Ffrindiau Iesu’, Saint y Gymuned, Rhif 43)

Cyflwyniad

Sioe Ffasiwn.

- Dangoswch logo Yves St Laurent, a gofynnwch a oes rhywun wedi ei weld o’r blaen. Eglurwch mai logo cynllunydd dillad enwog iawn ydyw. Roedd “steil” yn bwysig iawn iddo. Bu farw nos Sul Mehefin 1af, 2008 yn 71 mlwydd oed.
- Gofynnwch am 3 gwirfoddolwr o flwyddyn 5 neu 6 (neu’r plant hynaf) ac athro/ athrawes i’w helpu. Rhowch y gymysgedd o hen ddillad i’r gwirfoddolwyr a gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio’r dillad i greu gwisg ddiddorol neu ddoniol yn yr amser mae’n gymeryd i ganu’r gân.
- Cân: “Iesu dan ni’n canu dy glod”
- Sioe ffasiwn – gwahoddwch y plant i mewn fesul un gan roi sylwebaeth ganmoliaethus a bywiog ar eu creadigaeth.

Stori

Yn ystod wythnos hanner tymor Sulgwyn, aeth teulu a’u ci am dro ar hyd ddarn o’r Lôn Goed. (Mae’r Lôn Goed yn Eifionydd, yn cychwyn wrth bentref Chwilog ac yn 7 cilometr o lwybr a choed wedi eu plannu bob ochr iddo.) Wrth gerdded sylwodd y mab ieuengaf ar dyllau crwn yn un o’r coed derw. Tyllau cnocell y coed oedden nhw. Ac yna dyma glywed sŵn – sŵn cywion bach! Roedd y mab eisiau gwybod cywion beth oedden nhw. Cywion cnocell y coed? Doedd y fam ddim yn meddwl mai dyna oedden nhw – ond ymhen eiliadau cafodd ei phrofi’n anghywir. Beth ddaeth i fwydo’r cywion, ond cnocell y coed, Cnocell Werdd hardd!

Dangoswch lun y Gnocell Werdd

Dyma i chi rywbeth arall hardd sydd i’w weld yn tyfu o fis Mai hyd Gorffennaf – y Gellesgen neu’r Iris felen

Dangoswch lun Iris Felen

Mae’r rhain yn tyfu mewn llefydd gwlyb, fel cors, neu wrth ymyl ffos neu gamlas. Maen nhw yn werth eu gweld, yn flodau tal smart sy’n edrych fel y dylen nhw fod mewn gardd grand yn hytrach na mewn cors.

Geiriau Iesu

Mathew 6: 25 - 34

Gwrandewch ar beth oedd gan Iesu i’w ddweud am boeni am beth rydan ni’n ei fwyta neu’n ei wisgo:

25 “Felly, dyma dw i’n ddweud – peidiwch poeni beth i’w fwyta a beth i’w yfed a beth i’w wisgo. Onid oes mwy i fywyd na bwyd a dillad? 26 Meddyliwch am adar er enghraifft: Dyn nhw ddim yn hau nac yn medi nac yn storio mewn ysguboriau – ac eto mae eich Tad nefol yn eu bwydo nhw. Dych chi’n llawer mwy gwerthfawr na nhw. 27 Allwch chi ddim hyd yn oed gwneud eich bywyd eiliad yn hirach trwy boeni!

28 “A pham poeni am ddillad? Meddyliwch sut mae blodau gwyllt yn tyfu. Dydy blodau ddim yn gweithio nac yn nyddu. 29 Ac eto, doedd hyd yn oed y Brenin Solomon yn ei ddillad crand ddim yn edrych mor hardd ag un ohonyn nhw. 30 Os ydy Duw yn gofalu fel yna am flodau gwyllt (sy’n tyfu heddiw, ond yn cael eu llosgi fel tanwydd fory), mae’n siŵr o ofalu amdanoch chi! Ble mae’ch ffydd chi? 31 Peidiwch poeni felly, a dweud, ‘Beth wnawn ni fwyta?’ neu ‘Beth wnawn ni yfed?’ neu ‘Beth wisgwn ni?’ 32 (Y paganiaid sy’n poeni am bethau felly.) Mae’ch Tad nefol yn gwybod am bopeth sydd ei angen arnoch chi. 33 Gwnewch yn siŵr mai’r flaenoriaeth i chi ydy ymostwng i’w deyrnasiad e a gwneud beth sy’n iawn yn ei olwg, ac wedyn cewch y pethau eraill yma i gyd. 34 Felly, peidiwch poeni am fory, cewch groesi’r bont honno pan ddaw. Mae’n well wynebu problemau un dydd ar y tro.

Beibl.net

Neu Defnyddiwch “Y Beibl Bach i Blant” tudalen 339 - 341 ar gyfer fersiwn sylmlach.

Cymhwyso

Beth mae Iesu'n ei ddweud wrth y bobl sy'n ei ddilyn, wrth ei ffrindiau ydi:

- Peidiwch â phoeni gymaint am y pethau yma. Ydw i'n gwisgo'r dillad iawn, mwyaf ffasiynol? Neu, ydw i'n bwyta'r bwydydd neisiaf un, mwyaf crand?
- Os ydach chi'n poeni gymaint am y pethau yna, mae'n tynnu eich sylw chi oddi ar Dduw. Mae Iesu eisiau i'w ffrindiau roi sylw i'r pethau mae Duw eisiau gyntaf - ac mae Duw yn gofalu fod yna ddigon o bopeth arall fydd arnyn nhw eu hangen!

Gweddi

Diolch i Ti, Dduw, am yr holl ddillad sydd gennym ni. Diolch fod gennym ni ddigon o fwyd da.

Os gweli'n dda, wnei Di helpu pobl sydd heb fwyd a heb ddillad. Helpa ninnau i gofio amdanyn nhw a'u helpu.

Plîs wnei di ein helpu i feddwl am y pethau pwysig a pheidio â phoeni gymaint am sut rydan ni'n edrych, neu beth rydyn ni'n ei fwyta.

Amen